

ADRODDIAD RHIF 70029917-V1

# GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL LLANELLI

GWYBODAETH I HYSBYSU GWAITH SGRINIO  
RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

FERSIWN 1

MEDI 2017

# GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL LLANELLI

GWYBODAETH I HYSBYSU GWAITH  
SGRINIO ASESIAD RHEOLIADAU  
CYNEFINOEDD

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

## **Fersiwn 1**

Rhif y prosiect: 70029917

Dyddiad: Medi 2017

## **WSP**

1 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

**[www.wsp.com](http://www.wsp.com)**

# RHEOLI ANSAWDD

CYHOEDDIAD/DIWYGIAD	CYHOEDDIAD CYNTAF	DIWYGIAD 1	DIWYGIAD 2	DIWYGIAD 3
Sylwadau	Drafft	Fersiwn 1		
Dyddiad	18/04/2017	15/09/2017		
Paratowyd gan	LT	LT		
Llofnod				
Gwiriwyd gan	RH	PD		
Llofnod				
Awdurdodwyd gan	RH	PD		
Llofnod				
Rhif y prosiect	70029917	70029917		
Rhif yr adroddiad	001	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd_01		
Cyfeirnod ffeil	LDO_HRSA_0.1	LDO_HRSA_v1		

# TABL CYNNWYS

1	<b>CRYNODEB GWEITHREDOL.....</b>	<b>1</b>
2	<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>2</b>
2.2	<b>CYD-DESTUN YR ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD.....</b>	<b>3</b>
2.1	<b>CAMAU ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD .....</b>	<b>4</b>
3	<b>DISGRIFIAD O'R PROSIECT .....</b>	<b>6</b>
4	<b>SAFLEOEDD DYNODEDIG PERTHNASOL.....</b>	<b>7</b>
5	<b>SGRINIO EFFEITHIAU POSIBL.....</b>	<b>15</b>
5.2	<b>YSTYRIAETH O EFFEITHIAU AR WAHÂN.....</b>	<b>15</b>
5.3	<b>EFFEITHIAU MEWN CYFUNIAD POSIBL .....</b>	<b>20</b>
6	<b>CASGLIADAU .....</b>	<b>24</b>
7	<b>CYFEIRIADAU.....</b>	<b>25</b>
8	<b>FFIGURAU.....</b>	<b>27</b>

---

## TABLAU

TABL 1 – SAFLEOEDD NATURA 2000 NEU RAMSAR PERTHNASOL.....	10
TABL 2 – BYGYTHIADAU A PHWYSAU HYSBYS AR SAFLEOEDD DYNODEDIG PERTHNASOL.....	12

---

## FFIGURAU

FFIGUR 1 – CYNLLUN LLEOLIAD Y SAFLE .....	27
FFIGUR 2 – SAFLEOEDD DYNODEDIG PERTHNASOL.....	27

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

- 1.1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Gorchymyn Datblygu Lleol i alluogi newid defnydd adeiladau yng nghanol tref Llanelli. Bydd hwn yn rhoi caniatâd i newidiadau defnydd fel y nodir yn y Gorchymyn Datblygu Lleol heb fod angen i ymgeiswyr wneud cais am ganiatâd cynllunio. Dylid nodi nad yw'n cael gwared ar yr angen i sicrhau unrhyw ganiatâd yn ymwneud â rheoliadau ac ati sydd y tu allan i'r system gynllunio – ee rheoliadau adeiladu.
- 1.1.2 Mae angen asesu pob cynllun neu brosiect o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd') i nodi a yw effeithiau sylweddol ar safleoedd dynodedig o bwysigrwydd Ewropeaidd neu ryngwladol (Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu safleoedd Ramsar) yn debygol.
- 1.1.3 Comisiynwyd WSP (WSP) felly i baratoi gwybodaeth i hysbysu'r gwaith sgrinio hwn o'r Gorchymyn Datblygu Lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Gan fod y Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu datblygiad heb y gofyniad am ganiatâd cynllunio, ni fydd unrhyw gyfle i unrhyw ofynion lliniaru gael eu nodi gan asesiad haen is. Mabwysiadwyd dull lefel prosiect o sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd felly.
- 1.1.4 Nodwyd sawl safle dynodedig o bwysigrwydd Ewropeaidd neu ryngwladol o fewn 10 cilometr o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol (fel y dangosir yn Ffigur 2). Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, tua 1 cilometr o safle'r Gorchymyn Datblygu Lleol.
- 1.1.5 Mae'n bosibl y gallai'r Gorchymyn Datblygu Lleol effeithio ar y safleoedd dynodedig hyn drwy'r llwybrau effaith canlynol: gostyngiadau i ansawdd dŵr oherwydd pwysau cynyddol ar systemau trin dŵr gwastraff lleol; tarfu hamdden posibl ar rywogaethau Safle Ewropeaidd; ac effeithiau ansawdd aer posibl o allyriadau traffig ffordd cynyddol. Mae'r Prosiect wedi bod yn destun sgrinio o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i ganfod a allai'r llwybrau effaith hyn a nodwyd arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd.
- 1.1.6 Mae'r asesiad hwn wedi dod i'r casgliad na fydd y Prosiect yn arwain at effeithiau sylweddol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â Chynlluniau neu Brosiectau eraill. Gwneir y canfyddiad hwn ar y sail bod y mesurau lliniaru a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Datblygu Lleol a Fabwysiadir. Yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2010 (fel y'u diwygiwyd) dylid cofnodi'r penderfyniad sgrinio a wnaed gan yr Awdurdod Cymwys (Cyngor Sir Caerfyrddin) a dylid hysbysu cyrff statudol perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru) fel mater o arfer da. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd i hysbysu'r asesiad sgrinio hwn, ni ystyrir bod asesiad pellach o'r Prosiect trwy asesiadau priodol a chymau dilynol yn angenrheidiol.

## 2 CYFLWYNIAD

- 2.1.1 Comisiynwyd WSP | Parsons Brinckerhoff (WSP|PB) gan Gyngor Sir Caerfyrddin i baratoi gwybodaeth i hysbysu'r gwaith o sgrinio Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig canol tref Llanelli o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'. Gan na fydd newidiadau a ganiatawyd gan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn destun asesiad haen is a allai sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu cynnwys os oes angen, yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer asesiad lefel prosiect yw'r dull yn y ddogfen hon. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol (y cyfeirir ato fel 'y Prosiect' o hyn ymlaen) wedi ei leoli ar gyfeirnod grid bras SN 50746 00224, fel y dangosir yn Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle.
- 2.1.2 O dan ofynion Cyfarwydddeb Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC 'Y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a Chyfarwydddeb Cyngor 79/409/EEC 'Y Gyfarwydddeb Adar Gwyllt' mae'n angenrheidiol ystyried a allai'r prosiect arfaethedig gael effeithiau sylweddol ar ardaloedd cadwraeth natur y dynodwyd/dosbarthwyd eu pwysigrwydd o dan y Cyfarwydddebau. Caiff y gofyniad hwn ei droi'n gyfraith y DU drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd.
- 2.1.3 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar 'Awdurdodau Cymwys' i ystyried y potensial o effeithiau ar safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd cyn rhoi cydsyniad i brosiectau neu gynlluniau. Pe bai effeithiau sylweddol tebygol yn cael eu nodi gan y broses sgrinio gychwynnol, mae angen ystyried yr effeithiau ymhellach trwy 'Asesiad Priodol'. Yn gyffredinol, adnabyddir y broses asesu hon fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Caiff rhagor o fanylion am y cyd-destun deddfwriaethol perthnasol eu crynhoi yn Adran 2.2 isod.
- 2.1.4 Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth i alluogi'r Prosiect i gael ei sgrinio, gan drafod y pedair elfen ganlynol:
- penderfynu a yw'r Prosiect wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â safleoedd perthnasol neu'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safleoedd hyn (ACA, AGA, Ramsar);
  - disgrifio'r Prosiect y gallai fod yn bosibl iddo effeithio'n sylweddol ar safleoedd perthnasol;
  - cynnal cwmpasu cychwynnol ar gyfer effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl ar safleoedd perthnasol; ac
  - asesu arwyddocâd tebygol unrhyw effeithiau posibl a nodir.
- 2.1.5 Rhoddir disgrifiad o'r Prosiect a'r safleoedd dynodedig a nodwyd yn Adrannau 3 a 4, yn eu trefn. Darperir ystyriaeth o effeithiau posibl y Prosiect ar y safleoedd dynodedig ac a yw'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol yn Adran 5, gan gynnwys asesiad o effeithiau mewn cyfuniad posibl.

## 2.2 CYD-DESTUN YR ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

### CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

2.2.1 Mae Erthygl 6 (3) Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (1992, fel y'i diwygiwyd, 'y Gyfarwyddeb Cynefinoedd') yn nodi'r angen am 'Aseiad Priodol' o gynlluniau neu brosiectau sydd â'r potensial i effeithio ar uniondeb safle Natura 2000 (gan gynnwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd ACA ymgeisiol (yACA) fel y rheini sy'n agos at y Prosiect):

→ *'Any plan or project likely to have a significant effect on a Natura 2000, either individually or in combination with other plans or projects, shall undergo an Appropriate Assessment to determine its implications for the site. The competent authorities can only agree to the plan or project after having ascertained that it will not adversely affect the integrity of the site concerned'* (Erthygl 6.3).

2.2.2 Gan mai diben rhwydwaith Natura 2000 yw gwarchod enghreifftiau o rywogaethau a chynefinoedd ledled Ewrop, yn hytrach na gwarchod safleoedd unigol, mae Erthygl 6 (4) yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau eithriadol lle gellir caniatáu effeithiau negyddol. Mae'n nodi'r canlynol:

→ *'In exceptional circumstances, a plan or project may still be allowed to go ahead, in spite of a negative assessment, provided there are no alternative solutions and the plan or project is considered to be of overriding public interest<sup>1</sup>. In such cases the Member State must take*

---

<sup>1</sup> Ni ddarperir union ddiffiniad o '*imperative reasons of overriding public interest*', ond mae canllawiau CE yn nodi *'It is reasonable to consider that the "imperative reasons of overriding public interest, including those of social and economic nature" refer to situations where plans or projects envisaged prove to be indispensable:*

- *within the framework of actions or policies aiming to protect fundamental values for the citizens' life (health, safety, environment);*
- *within the framework of fundamental policies for the State and the Society;*
- *within the framework of carrying out activities of economic or social nature, fulfilling specific obligations of public service.'*



*appropriate compensatory measures to ensure that the overall coherence of the N2000 Network is protected.*' (Erthygl 6.4)

**2.2.3** Caiff y Gyfarwydddeb Cynefinoedd ei throï'n gyfraith y DU trwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ('y Rheoliadau Cynefinoedd'); mae Rheoliad 61 (1) yn nodi 'A competent authority, before deciding to undertake, or give any consent, permission or other authorisation for, a plan or project which—

*(a) is likely to have a significant effect on a European site or a European offshore marine site (either alone or in combination with other plans or projects), and*

*(b) is not directly connected with or necessary to the management of that site,*

*—must make an Appropriate Assessment of the implications for that site in view of that site's conservation objectives.'*

**2.2.4** Fel y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, mae'r Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn gwneud trefniadau i brosiectau neu gynlluniau gael eu cwblhau os ydynt yn bodloni rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig<sup>2</sup>. Mae Rheoliadau 62 a 66 yn ymwneud â sefyllfaoedd o'r fath.

## CYD-DESTUN POLISI

**2.2.5** Mae'n fater o bolisi Llywodraeth (NPPF paragraff 118) bod safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 am eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (a adnabyddir yn gyffredin fel safleoedd Ramsar) a AGAau posibl (AGAp) hefyd yn cael eu hystyried yn yr un ffordd ag ACAau, AGAau ac yACAau. Fel mater o arfer da, dylai ACAau posibl (ACApau) hefyd gael eu hystyried yn yr un ffordd.

## 2.1 CAMAU ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

**2.1.1** Mae canllawiau ar y Gyfarwydddeb Cynefinoedd (y Comisiwn Ewropeaidd, 2000) yn nodi'r dull cam wrth gam y dylid ei ddilyn i alluogi Awdurdodau Cymwys i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd ac yn cynnig mwy o eglurder o ran y dehongliad o Erthyglau 6 (3) a 6 (4). Caiff y broses a ddefnyddir ei chrynhai mewn pedwar cam asesu ar wahân fel rheol.

- Cam 1: Sgrinio: y broses sy'n nodi a yw effeithiau cynllun neu brosiect ar safle Natura 2000 yn bosibl, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac yn ystyried a yw'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol.
- Cam 2: Asesiad Priodol: yr ystyriaeth fanwl o effaith y cynllun neu'r prosiect ar uniondeb y safle Natura 2000, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, o ran amcanion cadwraeth y safle a'i strwythur a'i swyddogaeth.
- Cam 3: Asesiad o atebion amgen: y broses sy'n archwilio ffyrdd amgen o fodloni amcanion y cynllun neu'r prosiect sy'n osgoi effeithiau niweidiol ar uniondeb y safle Natura 2000.
- Cam 4: Asesiad lle nad oes unrhyw atebion amgen yn bodoli a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau: asesiad o ba un a yw'r datblygiad yn angenrheidiol am resymau hanfodol sef er budd

<sup>2</sup> '(a) reasons relating to human health, public safety or beneficial consequences of primary importance to the environment; or .

(b) any other reasons which the competent authority, having due regard to the opinion of the European Commission, consider to be imperative reasons of overriding public interest.'

cyhoeddus tra phwysig ac, os felly, o'r mesurau unioni sydd eu hangen i gynnal cydlyniad cyffredinol y rhwydwaith Natura 2000.

- 2.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth i alluogi'r asesiad sgrinio sy'n ofynnol yn rhan o Gam 1 y broses Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, i ganfod a fydd y Prosiect yn cael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar ai peidio.
- 2.1.3 Caiff yr egwyddor ragofalus ei chymhwyso ar bob cam o broses yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd. O ran sgrinio, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i brosiectau neu gynlluniau lle ystyrir bod effeithiau yn debygol a'r rheini pan fo ansicrwydd yn bodoli a yw'r effeithiau yn debygol o fod yn sylweddol fod yn destun ail gam proses yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, sef Aseiad Priodol.

# 3 DISGRIFIAD O'R PROSIECT

## TROSOLWG

- 3.1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Gorchymyn Datblygu Lleol i gynorthwyo'r gwaith o adfywio canol tref Llanelli. Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi caniatâd cynllunio o fewn ardal ofodol ddiffiniedig ar gyfer datblygiad fel y nodir yn y Gorchymyn Datblygu Lleol mewn unedau llawr daear ac uwch. Bwriedir i'r Gorchymyn Datblygu Lleol gynyddu lefelau meddiannaeth a nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref.
- 3.1.2 Bydd y defnyddiau y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn eu caniatáu yn cynnwys siopau, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwytaï a chaffis, sefydliadau yfed (ond nid clybiau nos), siopau tecawê bwyd poeth, swyddfeydd busnes, gwestai a thai llety, anheddau preswyl, sefydliadau nad ydynt yn breswyl, adeiladau ymgynnull a hamdden, golchdai a busnesau tacsi.

## NODAU'R PROSIECT

- 3.1.3 Yn dilyn cyfnod o dair blynedd, bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cael ei ystyried yn llwyddiannus os bydd dau neu fwy o'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:
- Cyflwynwyd Tystysgrifau Cydymffurfriad i bump neu fwy o unedau llawr daear gwag;
  - Mae nifer yr ymwelwyr blynyddol wedi cynyddu yn ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol;
  - Mae nifer yr unedau llawr daear gwag wedi gostwng yn ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol;
  - Cyflwynwyd Tystysgrifau Cydymffurfriad i dair neu fwy o unedau gwag llawr uwch - mae hyn yn cynnwys fflatiau a defnyddiau preswyl.
- 3.1.4 Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn destun adolygiad parhaus yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn a gellid ei ymestyn neu ei leihau yng ngoleuni llwyddiant neu fethiant y Gorchymyn Datblygu Lleol i fodloni'r nodau uchod. Gallai Newid Defnydd sydd wedi cychwyn yn ystod y cyfnod tair blynedd barhau; fodd bynnag, ni fydd unrhyw newidiadau newydd yn cael eu cymeradwyo heb ganiatâd cynllunio ffurfiol.

### Amodau allweddol

- 3.1.5 Ni fydd unrhyw newid defnydd a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn digwydd tan i dystysgrif cydymffurfriad gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn dilyn adolygiad o gynigion.
- 3.1.6 Ni fydd cychwyn ffisegol unrhyw newid a defnydd a ganiateir gan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cychwyn tan fod unrhyw amodau/materion a nodwyd yn y dystysgrif cydymffurfriad wedi cael sylw a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac ymgylgoreion perthnasol a bod Cymeradwyaeth Rhybudd Cychwyn wedi ei gyflwyno.
- 3.1.7 Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu newid defnydd, nid yw'n caniatáu newid i strwythur, maint neu ymddangosiad allanol adeilad.

## LLEOLIAD

- 3.1.8 Llanelli SN 50746 00224] yw'r dref fwyaf yn Sir Gaerfyrddin â phoblogaeth o tua 50,000. Amaethyddol yw'r defnydd tir yn bennaf i'r gogledd ac i'r gorllewin o'r dref. Mae afon ac aber Lluchwr yn uniongyrchol i'r de a'r dwyrain, sy'n gwahanu'r dref o Abertawe, sydd wedi ei lleoli tua 16 cilomedr i ffwrdd.

# 4 SAFLEOEDD DYNODEDIG PERTHNASOL

4.1.1 Fel y dangosir yn Ffigur 2, ceir saith safle dynodedig o bwysigrwydd Ewropeaidd neu ryngwladol o fewn 10 cilomedr i'r Prosiect. Rhestrir y safleoedd dynodedig hyn yn nhrefn eu hagosrwydd isod:

- Ramsar Cilfach Tywyn (1 cilomedr i'r gorllewin);
- ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (1 cilomedr i'r gorllewin);
- AGA Cilfach Tywyn (1 cilomedr i'r gorllewin);
- ACAa (6.3 cilomedr i'r gorllewin);
- ACA Twyni Bae Caerfyrddin (6.7 cilomedr i'r de-orllewin);
- AGA Bae Caerfyrddin (8.7 cilomedr i'r de-orllewin); ac
- ACA Tiroedd Comin Gŵyr (9.3 cilomedr i'r de-ddwyrain).

4.1.2 Caiff y rhesymau am ddynodi'r safleoedd hyn yn Nhabl 1 drosodd. Caiff yr agweddau hysbys sy'n gwneud y safleoedd hyn yn agored i niwed eu crynhoi yn Nhabl 2, wedi eu casglu o ffurflenni data safonol Natura 2000 (y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, 2016) a Chyngor Rheoliad 33 Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2009).

4.1.3 Gan roi ystyriaeth i'r nodweddion cymhwyso yn Nhabl 1 a gwybodaeth am agweddau agored i niwed y safleoedd yn Nhabl 2, yr amcanion cadwraeth eang ar gyfer ACA Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, AGA Cilfach Tywyn ac AGA Bae Caerfyrddin, fel y'u diffinnir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (2009) yw:

- Sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar gyfer yr holl nodweddion cynefin canlynol:
  - Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg;
  - Aberoedd, gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel;
  - Cilfachau a baeau bas mawr;
  - Dolydd heli'r Iwerydd; a
  - Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod.
- Sicrhau statws cadwraeth ffafriol i'r rhywogaethau canlynol:
  - Dyfrgi;
  - Gwangen (rhywogaeth *Alosa*);
  - Llysywen bendoll yr afon;
  - Llysywen bendoll y môr; a
  - Phob rhywogaeth adar a restrir o dan AGA Cilfach Tywyn ac AGA Bae Caerfyrddin.

4.1.4 Dyma'r amcanion cadwraeth eang ar gyfer ACA Twyni Bae Caerfyrddin:

- Bydd prosesau naturiol yn cael eu caniatáu i bennu'r amser a'r lle pan fo'r twyni traethlin ac embryonig yn bodoli. Ni fydd y prosesau hyn yn cael eu tarfu gan ymyrraeth ddynol uniongyrchol neu anuniongyrchol;
- Bydd traethlin yn bresennol o leiaf un flwyddyn o bob pump yn yr ardaloedd a nodwyd;

- Bydd twyni embryonig yn bresennol ar ochr glan môr y crib blaendwyn symudol o leiaf un flwyddyn o bob tair;
- Bydd twyni symudol yn bodoli yn rhan o'r prosesau naturiol dynamig sy'n creu'r systemau twyni;
- Bydd rhyngweithio rhwng y tair system twyni fel y bydd y broses naturiol o erydu mewn rhai mannau ac ail-gronni mewn eraill yn parhau heb darfu dynol uniongyrchol neu anuniongyrchol;
- Bydd twyni symudol yn rhan sylweddol o'r system dwyni ond byddant yn cynyddu ac yn lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirwedd y systemau twyni;
- Bydd twyni sefydlog â llystyfiant parhaol (twyni llwyd) yn bresennol pan fo twyni symudol hŷn yn dod yn fwy sefydlog ac yn cael eu cytrefu yn ystod cyfnodau olynol cynnar gan gennau a rhywogaethau eraill sy'n dynodi'r newid o gynefin llai symudol;
- Bydd y cynefin yn cwmpasu amrywiaeth o gyfnodau olynol drwy'r ardal gyfan, wedi eu pennu gan batrymau ffactorau naturiol a phori;
- Bydd twyni llwyd yn rhan sylweddol o'r system dwyni ond byddant yn cynyddu ac yn lleihau o ran maint a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirwedd y systemau twyni;
- Bydd twyni â *Salix repens* a llaciau twyni gwlyb yn digwydd yn rhan o'r system twyni, bydd eu lleoliad yn cael eu pennu gan brosesau naturiol a rheolaeth pori priodol;
- Bydd cynefin digonol ac addas i gynnal poblogaethau malwen droellog ceg gul *Vertigo angustior*, llysiâu'r afu petalog *Petalophyllum ralfsii* a thegeirian y fign galchog *Liparis loeselii* yn bresennol; ac
- Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar y nodweddion o dan reolaeth.

4.1.5 Nid yw amcanion cadwraeth penodol ar gyfer yACA Ceg Môr Hafren ac ACA Bae Gŵyr ar gael yn rhydd ond gellir tybio eu bod yn cynnwys cynnal nodweddion o ddi-ddordeb y safleoedd hyn mewn cyflwr ffafriol.

4.1.6 Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cynnig dehongliad pellach o ystyr '*statws cadwraeth ffafriol*' yn Erthygl 1 rhannau a, e ac i fel yr isod:

4.1.7 '*(a) conservation means a series of measures required to maintain or restore the natural habitats and the populations of species of wild fauna and flora at a favourable status as defined in (e) and (i);.....*

4.1.8 *(e) conservation status of a natural habitat means the sum of the influences acting on a natural habitat and its typical species that may affect its long-term natural distribution, structure and functions as well as the long-term survival of its typical species within the territory referred to in Article 2. The conservative status of a natural habitat will be taken as "favourable" when:*

- *- its natural range and areas it covers within that range are stable or increasing, and*
- *- the specific structure and functions which are necessary for its long-term maintenance exist and are likely to continue to exist for the foreseeable future, and*
- *- the conservation status of its typical species is favourable as defined in (i);*

4.1.9 *(i) conservation status of a species means the sum of the influences acting on the species concerned that may affect the long-term distribution and abundance of its populations within the territory referred to in Article 2; The conservation status will be taken as "favourable" when:*

- *- population dynamics data on the species concerned indicate that it is maintaining itself on a long-term basis as a viable component of its natural habitats, and*
- *- the natural range of the species is neither being reduced nor is likely to be reduced for the foreseeable future, and*

→ - *there is, and will probably continue to be, a sufficiently large habitat to maintain its populations on a long-term basis;*'

4.1.10 Nod oes amcanion cadwraeth penodol ar gyfer safleoedd Ramsar ar gael.

Tabl 1 – Safleoedd Natura 2000 neu Ramsar Perthnasol

ENW'R SAFLE	CRYNODEB O RESYMAU AM DDYNODI WEDI EU CRYNHOI AR FFURFLEN DDATA SAFONOL NATURA 2000 NEU DAFLLEN WYBODAETH RAMSAR
Ramsar Cilfach Tywyn (1 cilometr i'r gorllewin)	<p><b>Disgrifiad:</b> Canolfan aberol fawr wedi ei lleoli rhwng Penrhyn Gŵyr a Llanelli yn ne Cymru yw Cilfach Tywyn. Mae'n cynnwys ardaloedd helaeth o wastadeddau tywod a llaid rhynglanw, ynghyd â systemau twyni tywod mawr wrth geg yr aber. Mae'r safle yn cynnwys yr ardal barhaus fwyaf o forfa heli yng Nghymru (2,200 hectar).</p> <p><b>Rhywogaethau/poblogaethau cymwys â chyfrifiadau brig yn y gwanwyn/hydref</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pibydd coesgoch (<i>Tringa totanus totanus</i>): 857 unigolyn, yn cynrychioli cyfartaledd o 0.7% o boblogaeth Prydain Fawr.</li> </ul> <p><b>Rhywogaethau/poblogaethau cymwys â chyfrifiadau brig yn y gaeaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Hwyaden lostfain (<i>Anas acuta</i>): 2687 unigolyn, yn cynrychioli cyfartaledd o 4.4% o'r boblogaeth;</li> <li>→ Pioden fôr Ewrasiaidd (<i>Haematopus ostralegus ostralegus</i>): 14861 unigolyn, yn cynrychioli cyfartaledd o 1.4% o'r boblogaeth; a</li> <li>→ Pibydd coch (<i>Calidris canutus islandica</i>): 3618 unigolyn, yn cynrychioli cyfartaledd o 1.2% o boblogaeth Prydain Fawr.</li> </ul> <p><b>Rhywogaethau/poblogaethau a nodwyd yn dilyn dynodiad ar gyfer ystyriaeth bosibl yn y dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Hwyaden lydanbig (<i>Anas clypeata</i>) 467 unigolyn, yn cynrychioli cyfartaledd o 1.1% o'r boblogaeth.</li> </ul>
ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (1 cilometr i'r gorllewin)	<p><b>Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg;</li> <li>→ Aberoedd;</li> <li>→ Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel;</li> <li>→ Cilfachau a baeau bas mawr;</li> <li>→ <i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod; a</li> <li>→ Dolydd heli'r Iwerydd (<i>Glauco-Pauccinellietalia maritima</i>).</li> </ul> <p><b>Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gwangen (<i>Alosa fallax</i>).</li> </ul> <p><b>Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodwedd gymwys, ond nid ydynt yn brif reswm am ddethol y safle</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Llysywen bendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>);</li> <li>→ Llysywen bendoll yr afon (<i>Lampetra fluviatilis</i>);</li> <li>→ Herlyn (<i>Alosa alosa</i>); a</li> </ul>

ENW'R SAFLE	CRYNODEB O RESYMAU AM DDYNODI WEDI EU CRYNHOI AR FFURFLEN DDATA SAFONOL NATURA 2000 NEU DAFLN WYBODAETH RAMSAR
	→ Dyfrgi ( <i>Lutra lutra</i> ).
AGA Cilfach Tywyn (1 cilomedr i'r gorllewin)	<p><b>Rhywogaethau gaeafu cymwys</b></p> <p>→ Pioden fôr (<i>Haematopus ostralegus</i>): 13,590 unigolyn yn cynrychioli o leiaf 1.5% o boblogaethau aeafu Ewrop a Gogledd/Gorllewin Affrica; a</p> <p>→ Hwyaden lostfain (<i>Anas acuta</i>): 1,772 unigolyn yn cynrychioli o leiaf 3.0% o boblogaeth aeafu Gogledd-orllewin Ewrop.</p> <p><b>Cymhwyster crynodiad:</b> Gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol.</p>
yACA Ceg Môr Hafren (6.3 cilomedr i'r gorllewin)	<p>Nodweddion gwarchoddedig:</p> <p>→ Llamhidydd (<i>Phocoena phocoena</i>): rhywogaeth Atodiad II, 4.7% o boblogaeth uned reoli'r môr Celtaidd a môr Iwerddon.</p>
ACA Twyni Bae Caerfyrddin (6.7 cilomedr i'r de-orllewin)	<p><b>Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <p>→ Twyni symudol embryonig;</p> <p>→ Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag <i>Ammophila arenaria</i> ("twyni gwyn");</p> <p>→ Twyni arfordirol sefydlog â llystyfiant parhaol ("twyni llwyd");</p> <p>→ Twyni â <i>Salix repens</i> spp. <i>Argentea</i> (<i>Salicion arenariae</i>); a</p> <p>→ Llaciau twyni gwlyb.</p> <p><b>Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <p>→ Malwen droellog ceg gul (<i>Vertigo angustior</i>);</p> <p>→ Llysiau'r afu petalog (<i>Petalophyllum ralfsii</i>); a</p> <p>→ Thegeirian y fign galchog (<i>Liparis loeselii</i>).</p>
AGA Bae Caerfyrddin (8.7 cilomedr i'r de-orllewin)	<p><b>Rhywogaethau Atodiad II</b></p> <p>→ Môr-hwyaden ddu (<i>Melanitta nigra</i>): 1.0% o'r boblogaeth.</p>
ACA Tiroedd Comin Gŵyr (9.3 cilomedr i'r de-ddwyrain)	<p><b>Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <p>→ Gweundiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd ag <i>Erica tetralix</i>;</p> <p>→ Gweundiroedd sych Ewropeaidd; a</p> <p>→ Dolydd <i>Molinia</i> ar briddoedd calchaid, mawnog neu glai llawn gwaddod (<i>Molinion caeruleae</i>).</p>



ENW'R SAFLE	CRYNODEB O RESYMAU AM DDYNODI WEDI EU CRYNHOI AR FFURFLEN DDATA SAFONOL NATURA 2000 NEU DAFLEN WYBODAETH RAMSAR
	<p><b>Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm am ddethol y safle hwn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Mursen y de (<i>Coenagrion mercuriale</i>); a</li> <li>→ Briith y gors (<i>Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia</i>).</li> </ul>

**Tabl 2 – Bygythiadau a phwysau hysbys ar safleoedd dynodedig perthnasol**

ENW'R SAFLE	GWEITHGAREDDAU Â'R EFFAITH FWYAF AR Y SAFLE, FEL Y'U RHESTRIR AR FFURFLENNI DATA SAFONOL NATURA 2000 / TAFLENNI GWYBODAETH AR GYFER GWLYPTIROEDD RAMSAR / DOGFEN ASESIAID DETHOL ACA	PWYSAU A BYGYTHIADAU A RESTRIR YNG NGHYNOR RHEOLIAD 33 SAFLEOEDD MOROL EWROPEAIDD (CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU, 2009)
Ramsar Cilfach Tywyn (1 cilometr i'r gorllewin)	<p><b>Erydiad:</b> mae cynnydd i lefel y môr a/neu newidiadau i amlder stormydd, trosglwyddiad gwaddodion naturiol o ganlyniad i dorri naturiol yr hen 'fur hyfforddi' ac ail-alinio'r sianel yn achosi patrymau newidiol o ddyddodi gwaddodion ac erydiad. Mae astudiaethau'n awgrymu bod cyfraddau erydiad cyffredinol yn cael eu cyfateb fwy neu lai gan ail-gronni gwaddodion. Mae erydiad/colled ardal <i>Salicornia</i> yn digwydd - mae colli'r llystyfiant olynol cynnar hwn yn newid dosbarthiad cynefin morfeydd heli cyffredinol ar y safle.</p>	<p><b>Yn rhan o'r Safle Morol Ewropeaidd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Strwythurau harbwr doc a marina;</li> <li>→ Carthu;</li> <li>→ Adeiladu;</li> </ul>
ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (1 cilometr i'r gorllewin)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol;</li> <li>→ Llygredd i ddŵr wyneb;</li> <li>→ Newidiadau a achoswyd gan bobl i amodau hydrologig;</li> <li>→ Dyframaeth morol a dŵr croyw;</li> <li>→ Rhywogaethau estron goresgynnol;</li> <li>→ Hela, pysgota neu weithgareddau casglu na chyfeiriwyd atynt uchod;</li> <li>→ Llygredd pridd a gwastraff solid (ac eithrio gollyngiadau);</li> <li>→ Newidiadau i amodau anfiotig;</li> <li>→ Llygredd dŵr morol;</li> <li>→ Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden (yr ystyrir hefyd eu bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr awyr;</li> <li>→ Lonydd morgludiant, porthladdoedd, adeiladau morol;</li> <li>→ Gweithgareddau trefoli, diwydiannol ac eraill; a</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Hawlio tir;</li> <li>→ Diogelu'r arfordir;</li> <li>→ Dyddodiad creigiau, rwbwl ar y blaendraeth;</li> <li>→ Cyrsiâu dŵr croyw wedi'u hadeiladu'n galed;</li> <li>→ Piblinellau;</li> <li>→ Gwaredu elifion;</li> <li>→ Gwastraff a gweddillion anorganig;</li> <li>→ Gwaredu gweddillion carthu;</li> <li>→ Dŵr ffo diwydiannol trefol;</li> <li>→ Dŵr ffo amaethyddol;</li> <li>→ Pysgota â rhwydi;</li> <li>→ Pysgota â chewyll;</li> <li>→ Casglu â llaw;</li> <li>→ Casglu abwyd;</li> </ul>

ENW'R SAFLE	GWEITHGAREDDAU Â'R EFFAITH FWYAF AR Y SAFLE, FEL Y'U RHESTRIR AR FFURFLENNI DATA SAFONOL NATURA 2000 / TAFLENNI GWYBODAETH AR GYFER GWLYPTIROEDD RAMSAR / DOGFEN ASESIAID DETHOL ACA	PWYSAU A BYGYTHIADAU A RESTRIR YNG NGHYNGOR RHEOLIAD 33 SAFLEOEDD MOROL EWROPEAIDD (CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU, 2009)
	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Phori.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pori;</li> </ul>
AGA Cilfach Tywyn (1 cilomedr i'r gorllewin)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr awyr;</li> <li>→ Llygredd dŵr morol;</li> <li>→ Newidiadau i amodau anfiotig;</li> <li>→ Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored (yr ystyrir hefyd eu bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil; a</li> <li>→ Physgota a chynaeafu adnoddau dyfrol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Genweirio;</li> <li>→ Cychod hamdden;</li> <li>→ Mynediad arfordirol at ddibenion hamdden;</li> <li>→ Adara; ac</li> <li>→ Addysg</li> </ul>
yACA Ceg Môr Hafren (6.3 cilomedr i'r gorllewin)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Cael gwared ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu wrth bysgota</li> <li>→ Halogyddion</li> <li>→ Swnt tanddwr anthropogenig</li> <li>→ Marwolaeth neu anaf i lamhidydd trwy wrthdrawiad</li> <li>→ Cael gwared ar rywogaethau targed sy'n ysglyfaeth llamhidydd</li> </ul>	Ddim ar gael.
ACA Twyni Bae Caerfyrddin (6.7 cilomedr i'r de-orllewin)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pori (yr ystyrir hefyd ei fod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr awyr;</li> <li>→ Strwythurau, adeiladau yn y dirwedd;</li> <li>→ Esblygiad, olyniaeth biocenotic (yr ystyrir hefyd eu bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Addasiadau ecosystem eraill;</li> <li>→ Gweithgareddau coedwigaeth;</li> <li>→ Newidiadau i amodau anfiotig;</li> <li>→ Prosesau naturiol anfiotig (araf);</li> <li>→ Gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored, gweithgareddau hamdden;</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pori;</li> <li>→ Erydiad;</li> <li>→ Gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon;</li> <li>→ Sbwriel;</li> <li>→ Ymlediad pinwydd;</li> <li>→ Ymlediad prysgwydd eraill;</li> <li>→ Ordians;</li> <li>→ Materion hydrologig; a</li> <li>→ Gorfaethu.</li> </ul>

ENW'R SAFLE	GWEITHGAREDDAU Â'R EFFAITH FWYAF AR Y SAFLE, FEL Y'U RHESTRIR AR FFURFLENNI DATA SAFONOL NATURA 2000 / TAFLENNI GWYBODAETH AR GYFER GWLYPTIROEDD RAMSAR / DOGFEN ASESAD DETHOL ACA	PWYSAU A BYGYTHIADAU A RESTRIR YNG NGHYNGOR RHEOLIAD 33 SAFLEOEDD MOROL EWROPEAIDD (CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU, 2009)
	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Rhywogaethau estron goresgynnol; a</li> <li>→ Newidiadau a achoswyd gan bobl i amodau hydrolog.</li> </ul>	
AGA Bae Caerfyrddin (8.7 cilomedr i'r de-orllewin)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Llygredd dŵr morol;</li> <li>→ Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr awyr; a</li> <li>→ Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil.</li> </ul>	<p><b>Yn rhan o'r Safle Morol Ewropeaidd:</b> Fel y nodwyd uchod.</p>
ACA Tiroedd Comin Gŵyr (9.3 cilomedr i'r de-ddwyrain)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Chwaraeon a hamdden awyr agored;</li> <li>→ Esblygiad, olyniaeth biocenotic;</li> <li>→ Tân a llethu tân (yr ystyrir hefyd eu bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Newidiadau a achoswyd gan bobl i amodau hydrolog (yr ystyrir hefyd eu bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Pori (yr ystyrir hefyd ei bod yn effaith gadarnhaol);</li> <li>→ Rhywogaethau cynhenid sy'n peri problemau;</li> <li>→ Ffrwythloni;</li> <li>→ Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr awyr;</li> <li>→ Rhywogaethau estron goresgynnol; a</li> <li>→ Lladd / torri glaswelltir.</li> </ul>	Ddim ar gael.

# 5

## SGRINIO EFFEITHIAU POSIBL

5.1.1 Nid yw'r Prosiect wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â'r Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd nac yn angenrheidiol ar gyfer eu rheoli:

- Ramsar Cilfach Tywyn;
- ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd;
- AGA Cilfach Tywyn;
- yACA Ceg Môr Hafren;
- ACA Twyni Bae Caerfyrddin;
- AGA Bae Caerfyrddin; ac
- ACA Tiroedd Comin Gŵyr.

5.1.2 Nid yw wedi cael ei lunio'n bwrpasol i hyrwyddo cadwraeth y safle(oedd) ac nid yw'n hanfodol ar gyfer rheoli'r safle(oedd) chwaith. Mae angen ystyriaeth bellach o'r Prosiect ym mhroses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd felly.

## 5.2 YSTYRIAETH O EFFEITHIAU AR WAHÂN

5.2.1 Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn Adrannau 3 a 4, sgriniwyd y Prosiect i nodi a oes llwybrau effaith posibl rhwng y Prosiect a'r safleoedd dynodedig yn bresennol sy'n debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar y safleoedd dynodedig.

5.2.2 Mae'r llwybrau effaith posibl canlynol wedi cael eu sgrinio allan:

- **COLLED CYNEFIN UNIONGYRCHOL:** Ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud yn unrhyw un o'r safleoedd dynodedig perthnasol nac o fewn 1 cilomedr iddynt. Ni fydd unrhyw golled cynefin yn y safleoedd dynodedig nac i gynefinoedd ategol cyfagos yn digwydd yn rhan o'r cynigion felly.
- **DARNIO CYNEFIN:** Mae'r Prosiect wedi ei leoli yn amgylchedd adeiledig Llanelli, tua 1 cilomedr o Ramsar ac AGA Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (y Safle Ewropeaidd agosaf). Ni fydd y Prosiect yn arwain at unrhyw ddarnio cynefin uniongyrchol ar y safle dynodedig felly; ac ni ystyrir chwaith bod y cynigion yn debygol o effeithio'n sylweddol ar sut y mae rhywogaethau allweddol yn symud o gwmpas neu drwy'r safleoedd dynodedig.
- **GOFYNION ADNODDAU:** Mae'r Prosiect yn annhebygol o fod angen adnoddau o unrhyw safleoedd dynodedig; felly nid oes unrhyw effeithiau posibl yn debygol drwy'r llwybr hwn.

- 5.2.3 Ystyrir effeithiau posibl llygredd dŵr morol, llygredd aer a hamdden (gweithgarwch chwaraeon a hamdden awyr agored) yn fwy manwl isod. Ni fydd agweddau eraill sy'n gwneud safleoedd yn agored i niwed a nodir yn Nhabl 2 uchod, fel pysgota neu gynaeafu morol arall, dulliau reholi a ddefnyddir ar y safleoedd dynodedig a gweithgareddau porthladd neu forgludiant neu ddiogelu'r arfordir, yn cael eu dylanwadu gan y Prosiect. Ni fydd effeithiau presennol ar y safleoedd dynodedig drwy'r llwybrau hyn yn cael eu heffeithio gan y Prosiect felly, ac nid yw'r Prosiect yn debygol chwaith o arwain at effeithiau sylweddol newydd drwy'r llwybrau hyn.

## DŴR GWASTRAFF

- 5.2.4 Mae taflen ddata'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Chyngor Rheoliad 33 EMS (gweler Tabl 2) ar gyfer Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn nodi llygredd dŵr morol a dŵr wyneb fel bygythiadau posibl. Mae canfyddiadau'r Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Lleol Sir Gaerfyrddin (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2014) yn berthnasol hefyd. Nododd hwn y gallai twf yn Ardal Strategol De Llanelli arwain at ostwng ansawdd dŵr yn y Safle Morol. Cyfeirir hefyd at y strategaeth seilwaith / draenio sy'n cael ei pharatoi i ategu'r Gorchymyn Datblygu Lleol, ynghyd â'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Aseiad Canlyniadau Llifogydd Strategol.
- 5.2.5 Ceir manylion aseiad or cyfleustodau presennol yng Nghanol Tref Llanelli yn adroddiad yr Astudiaeth Seilwaith sy'n ategu'r Gorchymyn Datblygu Lleol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am leoliad a chapsiti'r cyfleustodau presennol a gofynion cwmnïau cyfleustodau ar gyfer cysylltiadau newydd â'r rhwydwaith gwasanaeth presennol, yn enwedig o ran gollyngiadau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr. Mae'n gwneud argymhelliad ynghylch gweithrediad strategaeth ddraenio i gefnogi darpariaeth y Gorchymyn Datblygu Lleol (gweler adran 3.1 yr adroddiad hwnnw).
- 5.2.6 Er mwyn sicrhau bod y risg o beryglu'r system garthffosiaeth leol, gan effeithio ar ansawdd dŵr yn Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, cyn lleied â phosibl, argymhellir bod y mesurau canlynol (fel y nodir yn Strategaeth Ddraenio'r Gorchymyn Datblygu Lleol) yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Datblygu Lleol a Fabwysiadir ar ffurf amodau:
- Ni fydd unrhyw newid defnydd yn cychwyn pan fydd yn arwain at orlwytho hydrolog y system garthffosiaeth gyhoeddus. Pan fydd yn ofynnol ac y gofynnir amdani, dylid cyflwyno strategaeth ddraenio i Dŵr Cymru Welsh Water a dulai gael ei chymeradwyo ganddynt.
  - Ni fydd unrhyw newid defnydd yn cychwyn pan fydd yn arwain at beryglu cyfanrwydd unrhyw garthffos gyhoeddus a/neu asedau prif bibell ddŵr o fewn a/neu nesaf at y safle. Pan fydd yn ofynnol ac y gofynnir amdano, dylid cyflwyno aseiad i Dŵr Cymru Welsh Water sy'n egluro unrhyw effeithiau ac unrhyw gamau lliniaru pan fo hynny'n angenrheidiol. Dylai'r aseiad gael ei gymeradwyo gan Dŵr Cymru Welsh Water.

- 5.2.7 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd ar waith rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Abertawe, DCWW a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â'r nod o gyflwyno dull partneriaeth i wella a diogelu ansawdd amgylcheddol Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, wrth wneud penderfyniadau am gynlluniau datblygu ac adfywio. Ni ragwelir y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol ei hun yn destun darpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
- 5.2.8 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys canllawiau ar reoli dŵr wyneb ar gyfer datblygiad yn nalgylch Llanelli a Thre-gŵyr (y dalgylchoedd carthffosiaeth sydd â'r perygl mwyaf o effeithio ar ansawdd dŵr Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd). Caiff y rhain eu gweithredu gan Gyngor Sir Caerfyrddin trwy roi caniatâd cynllunio dim ond pan fydd llifoedd presennol (dŵr wyneb neu ddŵr budr) wedi cael eu gwaredu o'r system i alluogi capasiti, neu ymgymryd â gwaith arall i wella'r seilwaith. Ceir gofyniad hefyd am ffactor gwelliant. Mae'r ddau awdurdod cynllunio yn rheoli'r broses hon trwy gadw Cofrestr Dŵr Wyneb a Hydrolig ar gyfer dalgylchoedd Llanelli a Thre-gŵyr.
- 5.2.9 Hefyd, byddai rhanddeiliaid sy'n cynnwys DCWW yn cael eu hysbysu am gynigion ar gyfer addasiadau preswyl (a datblygiadau eraill o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol), trwy broses hysbysu'r dystysgrif cydymffuriad. Byddai DCWW (a rhanddeiliaid eraill) yn gallu nodi gofynion penodol felly pe bai lefelau'r datblygiad a oedd yn cael eu hawdurdodi o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn cael eu hystyried yn ormodol.
- 5.2.10 O ystyried yr uchod, rhagwelir y bydd y cyfyngiadau newid defnydd yn defnyddio capasiti presennol yn y system trin dŵr gwastraff neu'n defnyddio capasiti trin ychwanegol o waith uwchraddio triniaeth dŵr gwasatreff neu ostyngiadau i fewnbynau o ffynonellau eraill. Fel y cyfryw, ni ddisgwylir **unrhyw effeithiau sylweddol tebygol** ar y safleoedd dynodedig sy'n rhan o Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.

## TARFU AR RYWOGAETHAU ALLWEDDOL OHERWYDD CYNNYDD HAMDDEN

- 5.2.11 Mae elfennau AGA a safle Ramsar Cilfach Tywyn Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd wedi cael eu dynodi ar sail y rhywogaethau adar gwlyptir y maent yn eu cynnal. Mae'n hysbys bod llawer o'r rhywogaethau hyn yn agored i effeithiau tarfu hamdden<sup>3,4,5</sup> (gweithgareddau fel mynd â chŵn am dro, cloddio am abwyd a defnydd hamdden o'r traeth, er enghraifft). Mae taflen ddata a Chynllun Rheoli Safle'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (gweler Tabl 2) hefyd yn nodi gweithgareddau hamdden fel bygythiad posibl i Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.
- 5.2.12 Cynhaliwyd amrywiaeth o astudiaethau ledled y DU i asesu sut y gall cynnydd i ddatblygiad preswyl effeithio ar ddefnydd hamdden safleoedd dynodedig<sup>6,7</sup>. Un canfyddiad cyffredin o astudiaethau o'r fath yw bod cyfran fawr o ddefnyddwyr hamdden safleoedd dynodedig yn byw'n gymharol agos at y safle dynodedig. Er enghraifft, mewn un astudiaeth yng Ngogledd Caint, roedd 50% o ymwelwyr a gyrhaeddodd mewn car yn byw o fewn 4.2 cilomedr i leoliad eu hymweliad tra bod 50% o ymwelwyr a gyrhaeddodd ar droed yn byw o fewn 0.8 cilomedr i leoliad eu hymweliad<sup>7</sup>. Mae'n bosibl felly y gallai cynnydd net i ddatblygiad preswyl yn ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol arwain at ddefnydd hamdden cynyddol o Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, sydd 1 cilomedr i ffwrdd o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol ar ei bwynt agosaf.

<sup>3</sup> Thomas, K., Kvitek, R. G. a Bretz, C. (2003). *Effects of human activity on the foraging behaviour of sanderlings Calidris alba. Biological Conservation* 109: 67-71

<sup>4</sup> Liley, D. a Fearnley, H. (2011). *Bird Disturbance Study, North Kent 2010/11. Footprint Ecology.*

<sup>5</sup> □ Gill, J.A., Sutherland, W.J. a Norris, K. (1998). *The consequences of human disturbance for estuarine birds. RSPB Conservation Review* 12: 67-72.

- 
- <sup>6</sup> Stillman, R. A., West, A. D., Clarke, R. T. a Liley, D. (2012) *Solent Disturbance and Mitigation Project Phase II: Predicting the impact of human disturbance on overwintering birds in the Solent. Report to the Solent Forum.*
- <sup>7</sup> Fearnley, H. a Liley, D. (2011). *North Kent Visitor Survey Results. Footprint Ecology.*

- 5.2.13 Mae ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi ei lleoli i'r dwyrain o'r rhan agosaf o Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Yn yr ardal hon, mae ffin Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd nesaf at ffordd a llwybr troed arfordirol yn y gogledd (cyfeirnod grid SN 492 002) ac yna llwybr arfordirol / blaendraeth tywod yn y de (i gyfeirnod grid SS 500 985). Mae'r rhan hon o flaendraeth hygyrch yn gyfanswm o tua 1.8 cilometr o hyd (gweler Ffigur 3). Daw ffin Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn fwy hygyrch trwy ffordd a llwybrau troed wedyn tua 2 gilometr i'r de o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol yng nghyfeirnod grid SS 503 984. Ceir mynediad cyhoeddus cyfyngedig at Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd i'r gorllewin. Mae hyn oherwydd bod rheilffordd Abertawe i Gaerfyrddin yn rhedeg nesaf at yr arfordir hyd at tua 6 cilometr i'r gorllewin o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol, gan gyfyngu ar fynediad cyhoeddus at y morlin.
- 5.2.14 Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn caniatáu addasu adeiladau presennol i greu unedau preswyl ar lorïau uwch adeiladau presennol; mae unrhyw addasiadau a wneir yn debygol o greu fflatiau 1 - 2 ystafell wely yn bennaf. Mae'r nifer gyfartalog o breswylwyr fesul adeilad yn debygol o fod yn gymharol fach felly. Ni ellir darogan union nifer yr addasiadau a fydd yn cael eu cyflawni o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol, o ystyried yr hyblygrwydd sy'n gysylltiedig ag ef.
- 5.2.15 Yn seiliedig ar nifer yr unedau presennol ar safle'r Prosiect, mae'n annhebygol y gellid darparu mwy na 180 o addasiadau preswyl yn ffisegol. Yn ymarferol, mae'n hynod annhebygol y byddai ceisiadau ar gyfer gymaint â hyn o addasiadau yn cael eu cyflwyno o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol. Tybiwyd sefyllfa waethaf bosibl o 180 o unedau preswyl yn derbyn Cymeradwyaeth Hysbysiad Cychwyn at ddibenion yr asesiad hwn felly. Pe bai ffigur o 100 o Gymeradwyaethau Hysbysiad Cychwyn ar gyfer unedau preswyl yn cael ei gyrraedd yn ystod oes y cyfnod 3 blynedd, yna bydd moratoriwm yn cael ei gyflwyno ar y Gorchymyn Datblygu Lleol a byddai'n cael ei adolygu gan hysbysu'r Cyngor llawn am y canlyniadau. Bydd adolygiad o'r fath yn cael ei hysbysu gan fewnbnw y rhanddeiliad hysbysu (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW).
- 5.2.16 Fel y nodir uchod, ceir mynediad cyfyngedig at Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol. Hefyd, datblygiad preswyl cyfyngedig yn unig y gellir ei gyflwyno o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn arwain at gynnydd sylweddol i ddefnydd hamdden Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac felly ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol tebygol.
- 5.2.17 Mae Safleoedd Ewropeaidd eraill a nodwyd yn rhan o'r astudiaeth hon wedi eu lleoli dros 6.3 cilometr i ffwrdd o safle'r Prosiect. Y Safle Ewropeaidd agosaf ar y tir yw ACA Twyni Bae Caerfyrddin, sydd wedi ei lleoli 6.7 cilometr (fel yr hed y frân) o Safle'r Prosiect. Mae ACA Twyni Bae Caerfyrddin wedi ei lleoli ar lan Bae Caerfyrddin sydd gyferbyn â Llanelli; mae'r pellter gwirioneddol i'w deithio i'r Safle dros y tir yn fwy na 10 cilometr. Mae Safleoedd Ewropeaidd eraill a nodwyd wedi eu lleoli dros 8 cilometr i ffwrdd o Safle'r Prosiect. O ystyried y pellteroedd hyn, mae unrhyw gynnydd net i anheddau preswyl o dan y Gorchymyn Datblygu Lleol yn annhebygol o arwain at gynnydd sylweddol i ddefnydd hamdden o'r Safle Ewropeaidd. Fel y cyfryw, ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau sylweddol godi.

## ANSAWDD AER: TRAFFIG FFORDD

- 5.2.18 Nod y Gorchymyn Datblygu Lleol yw cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref a chyflwyno adeiladau preswyl a masnachol newydd/wedi eu haddasu. Gallai bodloni'r amcanion hyn arwain at lefelau uwch o draffig o gwmpas canol y dref ac ar ffyrdd dynesu cysylltiedig. Nid yw'n bosibl darogan y lefelau traffig a fydd yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i'r Gorchymyn Datblygu Lleol o ystyried yr amrywiaeth o senarios datblygu a allai gael eu darparu.



- 5.2.19 Pe bai'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn arwain at gynydd sylweddol i allyriadau cerbydau, gallai hyn yn ei dro arwain at grynodiadau ocsid nitraidd (NOx) yn yr amgylchedd a dyddodiad nitrogen i gynefinoedd yn Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, a safleoedd pellach i ffwrdd o bosibl. Gall dyddodiad nitrogen yn arbennig gynyddu statws maethynnau cynefinoedd, gan arwain at gynydd i rywogaethau planhigion sydd wedi addasu'n well i amgylcheddau maethynnau uchel a cholli rhywogaethau planhigion sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau maethynnau isel. Mae allyriadau cerbydau yn tueddu i gael effaith sylweddol ar ansawdd aer yn agos at y man allyrru yn unig, gyda chrynodiadau NOx (a dyddodion nitrogen cysylltiedig) yn lleihau'n gyflym wrth fynd yn bellach oddi wrth ffyrdd.
- 5.2.20 Mae'r cynefinoedd sy'n cynrychioli buddiannau cymhwyso Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac a ddefnyddir gan y rhywogaethau adar cysylltiedig yn rhynglanwol yn bennaf. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd fel gwastadeddau llaid rhynglanw, banciau tywod a baeau ac aberoedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mewnbynnau nitrogen i'r cynefinoedd rhynglanw o'r atmosffer yn debygol o fod yn fach iawn o'u cymharu â mewnbynnau o ffynonellau morol ac afonol. O ran morfeydd heli (er enghraifft) adlewyrchir hyn ar APIS (*Air Pollution Information Service*), sy'n nodi bod dyddodiad nitrogen o'r atmosffer yn debygol o fod o bwysigrwydd isel i'r systemau hyn yn gyffredinol, gan fod y mewnbynnau'n debygol o fod yn sylweddol is na'r llwythiadau maethynnau mawr o fewnbynnau afon a llanw<sup>8</sup>.
- 5.2.21 Bu gostyngiadau cyson i grynodiadau NOx yn yr amgylchedd a dyddodiad nitrogen dilynol ar draws lawer o'r DU dros y degawdau diwethaf. Mae rhan o'r gwelliannau hyn o ganlyniad i allyriadau is o gerbydau modur. Bu gostyngiadau i allyriadau NOx o gerbydau â pheiriannau tanio oherwydd safonau allyriadau cynyddol lym. Daeth y safon Euro 6 a gyflwynwyd yn ddiweddar â rheolaethau arbennig o lym, gan gynnwys profi allyriadau byd real ar gyfer peiriannau diesel. Mae rhan o'r gostyngiad i allyriadau hefyd wedi digwydd o ganlyniad i'r nifer gynyddol o gerbydau hybrid a thrydan ar y ffordd.
- 5.2.22 Cyhoeddodd llywodraeth y DU Strategaeth Ansawdd Aer y DU yn ddiweddar. Mae hon yn nodi amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael â phryderon ansawdd aer (yn ymwneud ag iechyd pobl yn bennaf) yn y DU. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i ddiddymu'n raddol gwerthu ceir â pheiriannau tanio mewnol erbyn 2040. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Ansawdd Aer flaenorol y DU a gyhoeddwyd yn 2011, a oedd yn cynnwys yr un ymrwymiad. Mae'r niferoedd sy'n defnyddio ceir trydan a hybrid yn parhau i gynyddu, a disgwylir i gerbydau allyriadau isel fod yn gyfran gynyddol o fflyd gerbydau'r DU dros y blynyddoedd nesaf<sup>9</sup>.
- 5.2.23 Fel y nodir uchod, ystyrir bod y cynefinoedd rhynglanw sy'n gysylltiedig â Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn gymharol ansensitif i newidiadau i ansawdd aer. Mae unrhyw gynydd i symudiadau cerbydau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol hefyd yn debygol o gael ei fantoli gan safonau allyriadau cerbydau gwell a'r nifer gynyddol sy'n parhau i fanteisio ar gerbydau allyriadau hynod isel, gyda gostyngiad net i allyriadau cysylltiedig â cherbydau yn debygol o ddigwydd dros gyfnod y Gorchymyn Datblygu Lleol. O ystyried yr uchod, ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd godi o ganlyniad i allyriadau traffig ffordd sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn Datblygu Lleol.

## 5.3 EFFEITHIAU MEWN CYFUNIAD POSIBL

- 5.3.1 Mae'r asesiad o effeithiau posibl y Prosiect ar wahân a gynhaliwyd yn Adran 5.2 wedi dod i'r casgliad bod y Prosiect yn annhebygol o arwain at effeithiau sylweddol ar eu pen eu hunain. Mae'n un o ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd bod effeithiau posibl cynllun neu brosiect hefyd yn cael eu hystyried *mewn cyfuniad* â chynlluniau a phrosiectau eraill. Mae'r adran hon yn cynnig asesiad felly o'r potensial i'r Prosiect arwain at effeithiau mewn cyfuniad â Chynlluniau neu Brosiectau eraill.

---

<sup>8</sup> Gwefan APIS [ymwelwyd ar 21/08/17]: <http://www.apis.ac.uk/node/968>

<sup>9</sup> <https://www.gov.uk/government/news/more-drivers-choose-ultra-low-emission-vehicles>

- 5.3.2 Defnyddiwyd Porth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin i nodi cynlluniau neu brosiectau eraill yng nghyffiniau'r Prosiect y mae'n hysbys eu bod wedi derbyn caniatâd neu'n aros am benderfyniad. O ystyried natur drefol Llanelli, nodwyd nifer fawr o geisiadau cynllunio a oedd wedi derbyn caniatâd neu'n disgwyl am ganiatâd. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â chynigion ar gyfer datblygiad preswyl neu fasnachol, y mae llawer ohono'n ymwneud ag ardaloedd datblygu a nodwyd o dan Ddyraniad Safle Ardal Twf 2 (GA-2) Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin (a fabwysiadwyd yn 2014). Mae Ardal Twf 2 yn cynnwys Llanelli a chytrefi cyfagos Llangennech, Porth Tywyn a Phen-bre. Adolygwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y CDLI<sup>10</sup> felly, gan gynnwys yr asesiad penodol ar gyfer Polisi GA-2.
- 5.3.3 Hefyd, adolygwyd gwefan y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)<sup>11</sup> i nodi unrhyw brosiectau seilwaith graddfa fawr yr oedd cydsyniad yn cael ei geisio ar eu cyfer o fewn 10 cilomedr i Safle'r Prosiect.

## DŴR GWASTRAFF

- 5.3.4 Gallai twf poblogaeth a datblygiad economaidd ehangach yn deillio o gynlluniau a phrosiectau eraill arwain at alw cynyddol am gyfleusterau trin dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn yr ardal leol. Mae'n bosibl y gallai hyn effeithio ar ansawdd dŵr yn Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Fel y nodir yn Adran 5.2, cynigir cyfres o fesurau i'w cynnwys yn y Gorchymyn Datblygu Lleol i sicrhau nad yw'r Prosiect ar ei ben ei hun yn arwain at effeithiau o'r fath. Cyfeirir at yr Astudiaeth Seilwaith sy'n ategu'r Gorchymyn Datblygu Lleol.
- 5.3.5 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd ar waith rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Abertawe, DCWW a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â'r nod o gyflwyno dull partneriaeth i wella a diogelu ansawdd amgylcheddol Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, wrth wneud penderfyniadau am gynlluniau datblygu ac adfywio.
- 5.3.6 Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei ddefnyddio gan Gyngorau Sir Gaerfyrddin ac Abertawe wrth asesu ceisiadau cynllunio ag effeithiau posibl ar Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, a chan DCWW wrth gyflawni ei swyddogaethau fel darparwr cyfleustod. Ni ragwelir y bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol yn destun darpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
- 5.3.7 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn berthnasol ar draws ardaloedd awdurdod cynllunio Cyngorau Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. O ystyried hyn ac y bydd rhaid i ddatblygiadau unigol a gyflwynir o dan y Prosiect ddangos na fyddant yn peryglu systemau trin dŵr gwastraff, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol tebygol i unrhyw Safle Ewropeaidd.

## TARFU AR RYWOGAETHAU ALLWEDDOL OHERWYDD CYNNYDD HAMDDEN

- 5.3.8 Bydd y Prosiect yn caniatáu datblygiad hyd at 180 o unedau preswyl; fel y nodir yn adran 5.2, gallai cynnydd net i ddatblygiad preswyl arwain at ddefnydd hamdden cynyddol o Safleoedd Ewropeaidd. Mae'r asesiad yn adran 5.2 wedi dod i'r casgliad bod hyn yn annhebygol o arwain at effaith sylweddol ar ei ben ei hun.
- 5.3.9 Gallai cynlluniau neu brosiectau eraill, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys datblygiad preswyl neu lety arall yn agos at y Safleoedd Ewropeaidd, gyfrannu at bwysau hamdden cynyddol ar Safleoedd Ewropeaidd. Gallai unrhyw effeithiau o'r fath gyfuno â'r rheini o'r Prosiect, gan arwain at effaith mewn sylweddol mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

5.3.10 Daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o CDLI Sir Gaerfyrddin i'r casgliad na fyddai dyraniad safle GA-2 yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol o ran tarfu ar rywogaethau adar Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Daethpwyd i'r casgliad hwn ar sail ffactorau tebyg i'r asesiad ar gyfer y Prosiect, sef cyfran gyfyngedig Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd sy'n hygrch i'r cyhoedd o Lanelli oherwydd ffactorau fel lleoliad arfordirol rheilffordd Caerfyrddin i Abertawe. O ystyried y pellter rhwng y Prosiect a Safleoedd Ewropeaidd eraill (gweler paragraff **Error! Reference source not found.**), ni ddisgwylir i'r Prosiect gynhyrchu pwysau hamdden digonol i gyfrannu at effaith sylweddol debygol mewn cyfuniad â datblygiadau eraill.

5.3.11 Fel y cyfryw, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol tebygol i unrhyw Safle Ewropeaidd.

### ANSAWDD AER: TRAFFIG FFORDD

5.3.12 Fel y nodir yn Adran 5.2, ni ddisgwylir i newidiadau i allyriadau cysylltiedig â thraffig ffordd o'r Gorchymyn Datblygu Lleol arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar eu pen eu hunain.

5.3.13 Mae'n bosibl y gallai cynlluniau a phrosiectau eraill yn yr ardal leol arwain at gynydd i draffig ffordd, gydag effeithiau dilynol ar ansawdd aer o'r nifer gynyddol o gerbydau. Ni ddisgwylir i hyn godi am yr un rhesymau â'r asesiad o'r Prosiect ar ei ben ei hun, sef:

- Mae safonau allyriadau cynyddol gyfyngol yn berthnasol i bob cerbyd newydd;
- Disgwylir i gyfran fflyd gerbydau'r DU a fydd yn gerbydau allyriadau hynod isel gynyddu, gyda dim cerbydau allyrru newydd yn cael eu gwerthu ar ôl 2040; ac
- Mae llawer o'r Safleoedd Ewropeaidd yn ardal yr astudiaeth yn forol neu'n rhynglanw ac felly ystyrir eu bod yn gymharol ansensitif i effeithiau ansawdd aer yn deillio o draffig ffordd.

5.3.14 O ystyried yr uchod, ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau sylweddol tebygol i Safleoedd Ewropeaidd godi mewn cyfuniad ag unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill.

### PROSIECTAU SEILWAITH O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL

5.3.15 Hefyd, ni nodwyd unrhyw Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol y mae llwybrau posibl ar eu cyfer y gallai'r Prosiect gyfrannu at effeithiau mewn cyfuniad, neu eu hachosi, drwyddynt. Mae'r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol agosaf dros 10 cilomedr i ffwrdd o ardal y Gorchymyn Datblygu Lleol.

### CRYNODEB O EFFEITHIAU MEWN CYFUNIAD

5.3.16 Yn ogystal ag absenoldeb effeithiau posibl ar y safleoedd dynodedig ar eu pen eu hunain nid oes potensial chwaith y bydd y Prosiect yn arwain at effeithiau mewn cyfuniad ar y safleoedd dynodedig a aseswyd. Ni ystyrir bod y Prosiect yn debygol o gynyddu arwyddocâd unrhyw effeithiau posibl y gallai prosiectau neu gynlluniau eraill eu cael ar eu pen eu hunain, nac achosi i effeithiau ychwanegol fod yn debygol.

<sup>10</sup> Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cyfrol 1: Prif Destun / Cyfrol 3: Atodiadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Cyngor Sir Caerfyrddin. Tachwedd 2014.

<sup>11</sup> <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/>. Lawrlwythwyd ar 11/09/2017

# 6

## CASGLIADAU

- 6.1.1 Ni ystyrir bod y Prosiect yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd nac unrhyw safleoedd Ewropeaidd eraill, ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad ag unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill. Ni nodwyd unrhyw lwybrau effaith posibl yn dilyn ystyriaeth o effeithiau posibl y Prosiect a'r rhesymau am ddynodi'r safleoedd perthnasol.
- 6.1.2 Yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2010 (fel y'u diwygiwyd) dylid cofnodi'r penderfyniad sgrinio a wnaed gan yr Awdurdod Cymwys (Cyngor Sir Caerfyrddin) a dylid hysbysu cyrff statudol perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru) fel mater o arfer da. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd i hysbysu'r asesiad sgrinio hwn, ni ystyrir bod asesiad pellach o'r Prosiect trwy gamau asesu a dilynol priodol yn angenrheidiol.

## 7

## CYFEIRIADAU

- APIS (2011). *Air Pollution Information System Database*, ar gael yn [www.apis.ac.uk](http://www.apis.ac.uk).
- Cyngor Sir Caerfyrddin (2014) Cynllun Datblygu Lleol (Mabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014): Datganiad Ysgrifenedig.
- Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Chyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water (2011). *Safeguarding the Environment of the Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site (CBEEMS) whilst enabling Social and Economic Development for Communities around the Burry Inlet*. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
- Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar y Dŵr. Ramsar (Iran), 2 Chwefror 1971. Cyfres Cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig Rhif 14583. Fel y'i diwygiwyd gan Brotocol Paris, 3 Rhagfyr 1982, a Diwygiadau Regina, 28 Mai 1987.
- Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (1992). Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar Gadwraeth cynefinoedd naturiol ac o ffawna a fflora gwyllt. Ar gael ar-lein: <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:31992L0043>.
- Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2009). Cyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a Chyngor 30 Tachwedd 2009 ar gadwraeth adar gwyllt. Ar gael ar-lein: <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=URISERV:ev0024>.
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Chwefror 2009) *Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site: Regulation 33 Advice*. Ar gael Ar-lein: <https://www.naturalresources.wales/media/673515/Carmarthen%20Bay%20R33%20Advice%20February%202009.pdf>. Edrychwyd arno ddiwethaf: Ebrill 2017
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2008) *Carmarthen Bay Dunes / Twyni bae Caerfyrddin SAC Core Management Plan including conservation objectives*. Ar gael Ar-lein: <https://www.naturalresources.wales/media/671189/Carmarthen%20Dunes%20Management%20plan%20English.pdf>
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2012. *National Planning Policy Framework*.
- Yr Adran dros Ddrafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (1998) *European Marine Sites in England & Wales: A guide to the Conservation (Natural Habitats &c.) Regulations 1994 and to the Preparation and Application of Management Schemes*. Yr Adran dros Ddrafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau: y DU.
- Y Comisiwn Ewropeaidd (2000). *Managing Natura 2000 Sites, the provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC*. Ar gael [http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/provision\\_of\\_art6\\_en.pdf](http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/provision_of_art6_en.pdf).
- Cymunedau Ewropeaidd (2007). *Guidance document on Article 6 (4) of the 'Habitats Directive' 92/43/EEC*; Ar gael: [http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/guidance\\_art6\\_4\\_en.pdf](http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/guidance_art6_4_en.pdf)
- Gill, J.A., Sutherland, W.J. a Norris, K. (1998). *The consequences of human disturbance for estuarine birds*. *RSPB Conservation Review* 12: 67-72.
- Llyfrfa Ei Mawrhydi (2010). *The Conservation of Habitats and Species Regulations 2010/490*.
- Llyfrfa Ei Mawrhydi (2007). *The Offshore Marine Conservation (Natural Habitats, &c.) Regulations 2007*, OS 2007/1842.
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2016). Ffurflenni Data Safonol ACA ac AGC a Thafllenni Gwybodaeth Ramsar. Ar gael ar-lein: <http://www.jncc.gov.uk/>. Ymwelwyd: Ebrill 2017

- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (Ionawr 2017) *Inshore and Offshore Special Area of Conservation: Bristol Channel Approaches: SAC Selection Assessment Document*. Ar gael ar-lein:  
<http://jncc.defra.gov.uk/pdf/BristolChannelApproachesSelectionAssessmentDocument.pdf>.  
Ymwelwyd: Ebrill 2017
- Liley, D. a Fearnley, H. (2011). *Bird Disturbance Study, North Kent 2010/11*. *Footprint Ecology*.
- Thomas, K., Kvitek, R. G. a Bretz, C. (2003). *Effects of human activity on the foraging behaviour of sanderlings Calidris alba*. *Biological Conservation* 109: 67-71

# 8

## FFIGURAU

**Ffigur 1 – Cynllun Lleoliad y Safle**

**Ffigur 2 – Safleoedd dynodedig perthnasol**

**Ffigur 3 – Mynediad Cyhoeddus Safle Morol Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd**



